**Ymateb Cyngor Gwynedd i Ymgynghoriad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – "Adolygiad Darpariaeth Brys – Dweud eich Dweud"**

Mae'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i gyflwyno barn ac adborth i'r adolygiad ar ddyfodol y gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.

Cefnogir yn llwyr eich nod o fod "yn y lle iawn, ar yr amser iawn gyda'r sgiliau cywir" yn ogystal â'r ffaith bod eich gwaith modelu yn seiliedig ar "allu i ymateb" o fewn 20 munud yn ystod y dydd i unrhyw leoliad ar draws y Gogledd (yn enwedig felly pan yn ystyried digwyddiadau tan gwyllt a damweiniau ar ffyrdd gwledig). Yn y cyd-destun yma, mae'n amlwg o'r ddogfen ymgynghori bod y tri opsiwn yr ydych yn ymgynghori arnynt yn ceisio cyfarch y nod.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cynnig a wneir yn opsiwn 3, sydd yn argymell cau gorsafoedd ar-alwad yn Abersoch a Llanberis yn ogystal a Biwmares, Cerrigydrudion a Conwy. Yn hynny o beth, cefnogir datganiad y Prif Swyddog Tân, sydd eisoes wedi nodi y byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn mynd yn groes i'w chyngor proffesiynol.

Byddai cau dwy orsaf ar-alwad o fewn y Sir yn golled enfawr ac ym marn y Cyngor yn tanseilio'r nod o allu ymateb yn brydlon i alwadau brys mewn rhai mannau yng Ngwynedd. Mae hyn yn arbennig o wir pan yn ystyried bod y pwysau mwyaf ar y Gwasanaeth ar ddiwedd y prynhawn ac yn gynnar gyda'r nos pryd y byddai'n fwy tebygol bod staff ar-alwad angenrheidiol ar gael i ymateb i'r galwadau a dderbynnir.

Ar y llaw arall, ystyrir y bwriad, o fewn pob un o'r tri opsiwn, i sefydlu gorsafoedd tân staff dydd ym Mhorthmadog a Dolgellau, yn gam allweddol sy'n cryfhau'r gallu i wireddu'r nod i ymateb yn gyflym i alwadau yn yr ardaloedd dan sylw. Mae opsiwn 1 a 2 yn cynnig gwireddu hyn heb gau gorsafoedd ar-alwad lleol ac, o safbwynt gwella gwasanaeth, mae'r Cyngor yn amlwg gefnogol i'r naill fwriad a'r llall. Fodd bynnag, mae cost uwch (a cholled swyddi yn opsiwn 2) yn perthyn i'r datblygiad hwn ac mae'r Cyngor yn bryderus am effaith hynny ar lefel y cynnydd mewn treth a fyddai'n angenrheidiol i weithredu'r newid.

Yng nghyd-destun cost, mae'r Cyngor yn nodi bod y nifer swyddogion ar strwythur uwch-reolaethol yr Awdurdod Tân ac Achub rhanbarthol yn ymddangos yn uchel o'i gymharu ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill ar draws Cymru a Lloegr. O safbwynt y treth-dalwr yng Ngwynedd, creda'r Cyngor y byddai'n synhwyrol i'r Awdurdod Tân bwyso a mesur y gost rheolaethol honno ochr yn ochr a'i allu i ddarparu'r gwasanaeth rheng-flaen y byddai am ei wireddu.

Gwyddoch bod rhagdybio pwysau trwm iawn ar gyllidebau awdurdodau lleol yn y flwyddyn ariannol nesaf a thu hwnt. Mae'r cynnydd disgwyliedig yng nghyfraniad y chwe Awdurdod, a fyddai'n cyfateb ag oddeutu 14% ar gyfer gwireddu opsiwn 1 ag oddeutu 10% ar gyfer opsiwn 2, yn mynd i olygu y byddai rhai o'n gwasanaethau lleol ni fel Cyngor dan fygythiad uwch nag y byddai heb y gofyn ychwanegol hwn.

I grynhoi felly, mae'r Cyngor yn gefnogol i'r nod o wella gwasanaethau ymateb brys ac yn awyddus i weld gorsafoedd tân staff dydd ym Mhorthmadog a Dolgellau yn cael eu sefydlu ond nid ar draul cau gorsafoedd tân ar-alwad Abersoch a Llanberis, tra'n cynnig ymhellach bod modd ystyried lleihau'r cynnydd a ragwelir yn yr ardoll ar gyfer treth 2024-25 trwy adolygu gofynion uwch reolaethol a threfniadau gweinyddol o fewn yr Awdurdod Tân.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o gynigion sydd wedi'u cyflwyno gan Undeb y Frigâd Dan, yn ychwanegol i'r opsiynau a gynhwysir yn yr ymgynghoriad. Manteisir ar y cyfle i ddatgan ein

cefnogaeth i’ch bwriad i barhau i drafod y posibiliadau efo cynrychiolwyr yr undeb hwnnw yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.